Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

# Newyddion Dysgu Cymraeg

## Learn Welsh News

**Gwanwyn**
**Spring**
**2026**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn

# Croeso

Mae'n falch iawn gen i adrodd ar gynnydd yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan Genedlaethol - dros 20,000 yn 2024-2025, y nifer uchaf erioed.

'Dyn ni'n falch iawn o bob un o'n dysgwyr a siaradwyr newydd, ac o'n tiwtoriaid ymroddgar sy'n cynnal cyrsiau ledled Cymru, mewn cymunedau, gweithleoedd ac yn rhithiol.

Mae'r twf cyffrous yma yn adlewyrchu dull strategol y Ganolfan o gynllunio ac o ddarparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg, yn ogystal â'i harbenigedd yn y maes dysgu a chaffael iaith.

Mae bwrlwm yn y sector yn sicr, gyda chyflogwyr a gweithluoedd newydd yn ymuno â'n cynlluniau yn gyson.  Mae'r twf mawr yn niferoedd y bobl ifanc – 4,110 yn 2024-2025, cynnydd dramatig o 483% ers 2018-2019 – yn destun balchder arbennig.

Ein prif nod yw croesawu a chefnogi dysgwyr a siaradwyr newydd o bob cefndir, gan gyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050.  Dros y degawd diwethaf, mae'r Ganolfan wedi gweithio'n galed i osod sylfaen lwyddiannus ar gyfer datblygiadau pellach.

Wrth i ni droi ein golygon at y cyfnod nesaf, hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i'n holl bartneriaid a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus.

**Dona Lewis,**
**Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

# Welcome

I'm delighted to report an increase in the number of people learning Welsh with the National Centre – more than 20,000 in 2024–2025, the highest ever number.

We're extremely proud of each of our learners, and of our dedicated tutors who deliver courses across Wales – in communities, workplaces and in virtual classrooms.

This increase reflects the Centre's strategic approach to planning and delivering Learn Welsh services, as well as its expertise in language learning and acquisition.

There is a real sense of energy in the sector, with new employers and workforces joining our programmes. The significant rise in the number of young people learning Welsh – 4,110 in 2024–2025, a major increase of 483% since 2018–2019 – is a particular source of pride.

Our main aim is to welcome and support learners and new speakers from all backgrounds, and contribute to the Cymraeg 2050 strategy. Over the past decade, the Centre has worked hard to lay strong foundations for further development.

As we look to the next phase, I would like to take this opportunity to thank all our partners and stakeholders for their continued support – diolch am eich cefnogaeth.

**Dona Lewis,**
**Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh**



# Data diweddaraf yn dangos y nifer uchaf erioed yn dysgu Cymraeg

Mae mwy nag ugain mil o bobl bellach yn dysgu Cymraeg, yn ôl data diweddara'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Yn ystod 2024-2025, cwblhaodd 20,445 o unigolion gyrsiau'r Ganolfan – y nifer uchaf erioed – sy'n gynnydd o 61% ers 2017-2018, a 12% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r twf yn adlewyrchu dull strategol y Ganolfan o ddarparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg, gyda rhaglenni hyblyg wedi'u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, ochr yn ochr â chyrsiau cymunedol.

Mae 39% o'r holl ddysgwyr (8,370) yn dysgu trwy'r gwaith, yn sgil ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer sectorau allweddol fel Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweithlu Addysg, ac mae Estyn wedi galw'r Ganolfan yn "un o gonglfeini mentrau cynllunio ieithyddol yn y gweithle."

Mae'r mwyafrif o ddysgwyr rhwng 16 a 64 oed, ond mae cynnydd arbennig o gryf ymhlith pobl ifanc. Yn 2024-2025 roedd 4,110 o ddysgwyr rhwng 16 a 24 oed – cynnydd o 56% ers y flwyddyn flaenorol, a 483% ers 2018-2019.

I ddarllen y data cyfan, dilynwch y ddolen nesaf: [Cyhoeddi Data | Dysgu Cymraeg]

# Latest data shows record number learning Welsh

More than twenty thousand people are now learning Welsh, according to the latest data from the National Centre for Learning Welsh.

In 2024–2025, a total of 20,445 individuals completed the Centre's courses – the highest number ever – representing a 61% increase since 2017–2018 and a 12% increase compared to the previous year.

This growth reflects the Centre's strategic approach to providing Learn Welsh services, with flexible programmes tailored for specific audiences, alongside community-based courses.

Thirty-nine per cent of all learners (8,370) are learning through the workplace, following an expansion of provision for key sectors such as Health and Social Care and the Education Workforce. Estyn has described the Centre as "one of the cornerstones of language planning initiatives in the workplace."

The majority of learners are aged 16-64, but there has been particularly strong growth among young people. In 2024–2025, 4,110 learners were aged 16–24 – an increase of 56% compared with the previous year, and 483% since 2018–2019.

To read the full data, follow the link:
[Statistics | Learn Welsh]






# Dathlu gwasanaethau'r Ganolfan ar gyfer gweithluoedd

Bydd y Ganolfan yn cynnal digwyddiad yn y Senedd ar 26 Mawrth i ddathlu'r gwasanaethau Dysgu Cymraeg eang ac amrywiol sydd ar gael i weithluoedd ledled Cymru, sydd wedi'u canmol gan Estyn.

Bydd Jeremy Miles, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, James Owen, Prif Weithredwr Medr, a Jeremy Vaughan, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, yn ymuno â Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan, i gyflwyno gwahanol agweddau ar y gwaith.

Ers i'r Ganolfan ddechrau darparu hyfforddiant ar gyfer gweithluoedd yn 2018, mae 2,000 o gyflogwyr a 30,000 o weithwyr wedi cymryd rhan. Mae cynlluniau niferus wedi'u teilwra ar gyfer sectorau penodol, gan gynnwys Iechyd a Gofal, y Gweithlu Addysg, a Chwaraeon.

# Celebrating the Centre's services for workforces

The Centre will hold an event at the Senedd on 26 March to celebrate the wide range of Learn Welsh services available to workforces across Wales, which have been praised by Estyn.

Jeremy Miles, Cabinet Secretary for Health and Social Care, Efa Gruffudd Jones, Welsh Language Commissioner, James Owen, Chief Executive of Medr, and Jeremy Vaughan, Chief Constable of South Wales Police, will join Dona Lewis, the National Centre's Chief Executive, to discuss different aspects of the work.

Since the Centre started providing Learn Welsh training for workplaces in 2018, 2,000 employers and 30,000 employees have taken part. Many schemes are tailored for specific sectors, including Health and Care, the Education Workforce, and Sport.

# Sefydlu un llwybr dysgu Cymraeg gydol oes am y tro cyntaf

Croesawodd y Ganolfan 200 o westeion i'w chynhadledd genedlaethol ar y cyd â Llywodraeth Cymru fis Rhagfyr diwethaf. Pwrpas y gynhadledd, a roddodd lwyfan i siaradwyr o Wlad Pwyl, Norwy a Chanada, yn ogystal ag arbenigwyr o Gymru, oedd trafod sut i greu un llwybr dysgu clir ar gyfer dod yn siaradwr Cymraeg, gan gefnogi dysgwyr o bob oed.




Eglurodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg, sy'n cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Bydd y Ddeddf yn creu llwybr dysgu Cymraeg gydol oes, yn seiliedig ar fframwaith rhyngwladol y CEFR (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd).

Mae'r Ganolfan yn barod yn defnyddio'r CEFR wrth weithredu system dysgu iaith lwyddiannus sy wedi cyfrannu at gynnydd yn yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Mae ei holl gyrsiau ar gael ar wahanol lefelau, o ddechreuwyr i siaradwyr hyderus, sy'n cyd-fynd â'r fframwaith.

Am fwy o wybodaeth am y CEFR a'r lefelau Dysgu Cymraeg, dilynwch y ddolen nesaf: TABL CEFR

# Creating a lifelong Welsh-learning pathway for the first time

The Centre welcomed 200 guests to its national conference held jointly with the Welsh Government last December. The aim of the conference, which featured guest speakers from Poland, Norway and Canada, alongside experts from Wales, was to discuss how to create one clear learning pathway to becoming a Welsh speaker, supporting learners of all ages.



Mark Drakeford, Cabinet Secretary for Finance and the Welsh Language, outlined the aims of the Welsh Language and Education Act, which supports the Welsh Government's Cymraeg 2050 strategy. The Act will create a lifelong Welsh-learning pathway, based on the international CEFR framework (Common European Framework of Reference for Languages).

The Centre already uses the CEFR to implement a successful language learning system which has contributed to an increase in the number of adults learning Welsh. All its courses, which are available at various levels, from beginners to confident speakers, are aligned with the framework.

For more detail on the CEFR, please follow the next link: CEFR TABLE

# Gweithlu Addysg

Mae'r Ganolfan yn arwain rhaglen genedlaethol ar gyfer y Gweithlu Addysg, ac mae'r ddarpariaeth yn parhau i ymestyn, gyda chyfleoedd dysgu hyblyg ar bob lefel.

Yn ogystal â chyrsiau wedi'u teilwra, a chyrsiau preswyl yng nghanolfan Nant Gwrtheyrn, mae'r Ganolfan yn trefnu bod tiwtoriaid Dysgu Cymraeg yn gweithio ar leoliad mewn ysgolion, gan gynnwys Ysgol y Gogarth, Ysgol Caereinion, ac Ysgol Caergybi.

Mae'r tiwtoriaid yn gweithio'n hyblyg er mwyn ateb gofynion penodol yr ysgolion, gan gefnogi datblygiad athrawon a staff ar hyd y continwwm iaith.

I ddarllen mwy am ein darpariaeth ar gyfer y Gweithlu Addysg, dilynwch y ddolen:
Gweithlu Addysg

# Education Workforce

The Centre leads a national programme for the Education Workforce, and the provision continues to expand, with flexible learning opportunities available at all levels.

In addition to tailored courses, and residential courses at Nant Gwrtheyrn, the Centre arranges for Learn Welsh tutors to work on location at schools, including Ysgol y Gogarth, Ysgol Caereinion, and Ysgol Caergybi.

The tutors work flexibly to meet the specific requirements of the schools, supporting the development of teachers and staff along the language continuum.

To read more about our provision for the Education Workforce, follow the link:
Education Workforce



# Pobl ifanc

## Cynlluniau'r Ganolfan ar gyfer pobl 16-25 oed



Mae cynlluniau'r Ganolfan ar gyfer pobl ifanc yn parhau i esblygu, gyda chyrsiau wedi'u teilwra a darpariaeth arbennig sy'n cael ei chynnig ar y cyd â phartneriaid amrywiol gan gynnwys yr Urdd a'r Sector Prentisiaethau.

Bydd penwythnos arbennig yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf, yng Nghaerfyrddin, i roi cyfle i ddysgwyr ifanc ddod at ei gilydd i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

## Croesawu pobl ifanc i weithio yn y sector Dysgu Cymraeg

Hefyd yn ystod mis Gorffennaf, yng Nghaerdydd, bydd y Ganolfan yn cynnig pythefnos o hyfforddiant i fyfyrwyr er mwyn rhoi blas iddynt ar weithio fel tiwtor Dysgu Cymraeg.

Bydd y cwrs 'Tiwtoriaid Yfory' yn cynnwys gweithdai a chyfleoedd i arsylwi dosbarthiadau Cwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd, un o ddarparwyr y Ganolfan, sy'n cael ei drefnu gan Brifysgol Caerdydd.

Ar ôl dilyn cwrs Tiwtoriaid Yfory 2025, mae David Thomas a Gwilym Morgan bellach yn gweithio fel tiwtoriaid. Darllenwch am eu taith iaith trwy ddilyn y ddolen nesaf:
Tiwtoriaid Yfory: David Thomas a Gwilym Morgan

# Young people

## The Centre's schemes for 16-25 year-olds

The Centre's schemes for young people continue to expand, with tailored courses and specific provision offered in partnership with the Urdd and Apprenticeships Sector.

A residential weekend will be held in July, in Carmarthen, to give young learners a chance to use and develop their Welsh Language skills.

## Welcoming young people to work in the Learn Welsh sector

Also during July, in Cardiff, the Centre will offer a two-week training course to students called 'Tiwtoriaid Yfory' (Tutors of Tomorrow), giving them an introduction to the Learn Welsh Sector.

The course will include workshops and opportunities to observe classes during the summer course held by Learn Welsh Cardiff, one of the Centre's providers, run by Cardiff University.

After following the Tutors of Tomorrow course in 2025, David Thomas and Gwilym Morgan are now working as tutors. Read about their language journey by following the next link:
Tutors of Tomorrow: David Thomas and Gwilym Morgan

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn